


CYFARFOD PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL - CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

 13:00 –15:40



3 Tachwedd 2022



MS Teams

Yn Bresennol (Aelodau)	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Rowan Gardner	RG	Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
David Selway	DS	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Marilyn Bryan Jones	MJ	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Yn bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a Phrif Swyddog Masnachol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Carwyn Lloyd Jones	CLJ	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Keith Reeves	KR	Rheolwr Tîm Rheoli Gwasanaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rhidian Hurle	RH	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Cofnodion ar gyfer:

Pwyllgor Cyhoeddus Llywodraethu a Diogelwch Digidol Tachwedd 2022

Darren Lloyd	DL	Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Julie Ash	JA	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
David Sheard	DSH	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid Gwasanaeth (eitem 3.5 yn unig)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Carys Richards	CR	Cydlynnydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Andrew Warburton	AW	Pennaeth Rhaglenni Gwybodaeth a Chofnodion Iechyd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Marcus Sandberg	MS	Uwch Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Ifan Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rachael Powell	Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Paul Evans	Pennaeth Dros Dro Ansawdd a Rheoleiddio	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Acronymau			
SHA	Awdurdod Iechyd Arbennig	DG&S	Llywodraethu a Diogelwch Digidol
NDR	Adnoddau Data Cenedlaethol	DPIF	Cronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol
R&I	Ymchwil ac Arloesi	ETR	Ceisiadau Prawf Electronig
DSPP	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	WEDS	System Adran Argyfwng Cymru
WICIS	System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru	RISP	Rhaglen Datrysiaid Gwybodeg Radioleg
WIAS	Gwasanaeth Archif Delweddu Cymru	DMTP	Portffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol
DHCW	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	IM	Aelod Annibynnol
ISD	Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth	NHS	Gwasanaeth Iechyd Gwladol

BAU	Busnes fel Arfer	IRLG	Grŵp Adolygu Digwyddiad a Dysgu
MB	Y Bwrdd Rheoli	LPF	Fforwm Partneriaeth Lleol
MIU	Uned Mân Anafiadau		

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu i'w Gofnodi
RHAN 1 — MATERION RHAGARWEINIOL			
1.1	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd Rowan Gardner (RG), Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (DG&S) bawb i'r cyfarfod.</p> <p>Gyda chroeso estynedig i Marilyn Bryan Jones (MJ), Aelod Annibynnol sydd wedi ymuno ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ddiweddar ac yn mynychu ei phwyllgor Iechyd a Gofal Digidol Cymru cyntaf, rhoddodd gyflwyniad byr i'w chefnidir ei hun mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.</p> <p>Croesawyd Andrew Warburton (AW), Pennaeth Rhaglenni Gwybodaeth a Chofnodion Iechyd fel aelod o dîm Rachael Powell i ymdrin ag eitem 3.4 Adroddiad Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth yn ei habsenoldeb.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	<p>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ifan Evans (IE), Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth • Rachael Powell (RP), Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil, • Paul Evans (PE), Pennaeth Dros Dro Ansawdd a Rheoleiddio 	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<p>Datganiadau o Fuddiannau</p> <p>Dywedodd RG ei bod yn gyd-sylfaenydd Precision Life, sy'n delio â gwybodaeth cleifion at ddibenion eilaidd megis ymchwil.</p> <p>Nododd hefyd fod Prif Swyddog Gweithredol Precision Life ar banel digwyddiad yr wythnos hon gydag aelodau SAIL, sy'n</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

Cofnodion ar gyfer:

Pwyllgor Cyhoeddus Llywodraethu a Diogelwch Digidol Tachwedd 2022

	<p>gyflenwr trydydd parti i Iechyd a Gofal Digidol Cymru.</p> <p>Yn ogystal, nododd statws amserol cyfredol data gofal iechyd gyda Llywodraeth y DU yn cyhoeddi polisiau yn ddiweddar o ran defnyddio data at ddibenion eilaidd, gan ychwanegu sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sicrhau bod data cleifion yn cael eu diogelu o fewn y maes hwn yn benodol gydag eitem 3.6 ar yr agenda heddiw.</p> <p>Codwyd, os ar unrhyw adeg pan nad yw'n briodol i RG fod yn Gadeirydd, bydd yr Is-Gadeirydd David Selway (DS), Aelod Annibynnol yn cymryd yr awenau i reoli unrhyw wrthdaro posibl.</p>		
1.4	<p>Materion sy'n codi</p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
<p>RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO</p> <p>Dosbarthwyd eitemau ar yr agenda gydsynio cyn y cyfarfod a nodwyd nad oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn gan y Cadeirydd ymlaen llaw i'w nodi.</p>			
2.1	<p>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddus • Crynodeb preifat <p>Anfonodd Carwyn Lloyd-Jones (CLJ), Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau ddiwygiadau i'r testun a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r risg o oedi o ran Offer Rhwydwaith DHCW0291 mewn perthynas â symud y Ganolfan Ddata, a roddwyd ar waith.</p> <p>Holodd RG am y broses gyfieithu pan wneir diwygiadau gyda CLJ, fel siaradwr Cymraeg yn cynnig prawffdarllen unrhyw newidiadau er cywirdeb cyn eu cyhoeddi.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod diweddfaf.</p>	Cymeradwy wyd	Dim i'w nodi
2.2	<p>Blaengynllun Gwaith</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Nodi'r Blaengynllun Gwaith</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
<p>RHAN 3 - PRIF AGENDA</p>			

Cofnodion ar gyfer:

Pwyllgor Cyhoeddus Llywodraethu a Diogelwch Digidol Tachwedd 2022

<p>3.1</p>	<p>Cofnod Camau Gweithredu</p> <p>O dan arweiniad Chris Darling (CD), Ysgrifennydd y Bwrdd a nododd fod 2 gam gweithredu wedi'u cau ers y cyfarfod diwethaf ar Awst 4 a bod 2 wedi'u nodi fel rhai ar y gweill, heb unrhyw drafodaeth bellach gan fod y Pwyllgor yn fodlon â'r cynnydd a wnaed.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Drafod y Cofnod Camau Gweithredu.</p>	<p>Trafodwyd</p>	<p>Dim i'w nodi</p>
<p>3.2</p>	<p>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p> <p>Dyweddodd CD wrth y Pwyllgor fod 28 o risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar hyn o bryd, ac mae 20 ohonynt i'w hystyried gan y Pwyllgor hwn, gydag 11 o risgiau cyhoeddus a'r 9 arall wedi'u dosbarthu'n rhai preifat oherwydd eu sensitifrwydd a dderbynnir yn sesiwn breifat y Pwyllgor.</p> <p>RISGIAU NEWYDD (3) – 3 chyhoeddus, 0 Preifat</p> <ul style="list-style-type: none"> • DHCW0294 – Perchnogaeth Gwasanaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac ymrwymiad adnoddau heb eu cytuno ar gyfer Ap GIG Cymru – mae risg wedi cael ei his-gyfeirio ers cynhyrchu'r papur, ar ôl cytuno ar fodel gwasanaeth yn arwain at GO Live, bydd y risg yn parhau i gael ei fonitro ar lefel Cyfarwyddiaeth • DHCW0295 – Diffyg adnoddau i weithredu Cerrig Milltir allweddol y Cynllun Tymor Canolig Integredig - Sgôr wedi'i leihau • DHCW0296 - Alergeddau / Adweithiau Niweidiol - Ffynhonnell Sengl - nododd Rhidian Hurle (RH), Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol fod angen gwneud y risg yn weladwy, gan ei bod yn effeithio ar Borth Clinigol Cymru a Phortffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol <p>LLEIHIAU RISGIAU (2) – 2 chyhoeddus, 0 preifat</p> <ul style="list-style-type: none"> • DHCW0291 Oedi Offer Rhwydwaith mewn perthynas â symud Canolfan Ddata 2 • DHCW0295 – Diffyg adnoddau i weithredu cerrig milltir allweddol y Cynllun Tymor Canolig Integredig 	<p>Trafodwyd</p>	<p>Dim i'w nodi</p>

Cofnodion ar gyfer:

Pwyllgor Cyhoeddus Llywodraethu a Diogelwch Digidol Tachwedd 2022

RISGIAU A DILEWYD (1)

- DHCW0293 - Llythyrau Cyllido Cronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol

Mae archwiliadau dwfn i'r holl risgiau corfforaethol a neilltuwyd i'r Pwyllgor DG&S sydd wedi aros ar y gofrestr risg gorfforaethol ers 1 Ebrill 2021 wedi'u cynnal, a chafodd un ohonynt ei gynnwys i'w drafod yn y sesiwn gyhoeddus.

- DHCW0237 - Gofynion newydd yn effeithio ar adnoddau a chynllun

Nodwyd bod y risg wedi newid, o effaith benodol cynllunio ar gyfer covid i gynnwys adferiad nawr. Nodwyd, yn gyffredinol, bod y Portffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol hefyd wedi'i amsugno ond y byddai gofynion LINC a RISP yn cael effaith ar adnoddau nawr hefyd.

Amlygodd Michelle Sell (MS), Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a Phrif Swyddog Masnachol fod y risg yn parhau i fod yn her i Iechyd a Gofal Digidol Cymru, o ran gallu cynllunio, gyda rhywfaint o ansicrwydd yn parhau yn yr ymateb i covid. Llwyddodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru i symud adnoddau i fod yn gefnogol i'r ymateb cychwynnol, ond cafodd effaith ar fusnes mewn manau eraill. Nododd MS y byddai gan Gynllun Tymor Canolig Integredig y flwyddyn nesaf gapasiti er mwyn i Iechyd a Gofal Digidol Cymru fod yn fwy ystwyth, fodd bynnag gallai hyn olygu'r gallu i fod yn llai uchelgeisiol ymlaen llaw yn y cynllun. Roedd y risg yn parhau i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ond bydd yn cael ei rheoli wrth symud ymlaen mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid.

Cwestiynodd DS risg DHCW0295 - Diffyg adnoddau i weithredu Cerrig Milltir Cynllun Tymor Canolig Integredig allweddol, a oedd, fel y nodwyd uchod, yn newydd ond hefyd wedi'u lleihau. Eglurodd CD ei bod wedi'i hychwanegu a'i lleihau yn y chwarter ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor ym mis Awst.

Nododd DS fod yna 3 risg ar wahân bellach oherwydd capasiti adnoddau a gofynnodd ai dyma'r ffordd gywir o'u cyflwyno, neu a ddylid eu cyfuno? Ychwanegodd CD fod hyn i sicrhau bod pob maes yn derbyn yr adnoddau ychwanegol cyn lleihau'r risg gan fod y lliniaru yn erbyn y 3 ychydig yn wahanol.

O ran risg yr Addewid Data, nododd Darren Lloyd (DL),

	<p>Cyfarwyddwr Cyswilt ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion fod Helen Thomas, y Prif Weithredwr wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r cyfrifoldebau ac yn cynnig lle gall Iechyd a Gofal Digidol Cymru gynorthwyo, a bydd ymateb yn cael ei dderbyn er mwyn ffurfioli cynllun.</p> <p>Bydd risg y Gwasanaeth Cyfnewid yn cael ei diweddarau ar ôl i'r Archwiliad Mewnol presennol ddod i ben.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar y gwahaniaeth yn y lefel risg bresennol i'r lefel darged ac a fyddai hyn fyth yn gyraeddadwy mewn rhai achosion. Cytunwyd bod yn rhaid i'r lefel darged fod yn unol â'r derbynioldeb risg a bod hyn yn her, yn enwedig gyda risgiau generig, er enghraifft bydd gan Seiber fygythiadau bob amser ac felly bydd bob amser yn aros ar y gofrestr. Nodwyd bod angen cytuno ar gerrig milltir / metrigau i gyrraedd y sgorau risg targed ond dylid adrodd ar yr angen i gydnabod yr ansicrwydd mewn rhai meysydd.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Drafod y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p>		
3.3	<p>Adroddiad Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol</p> <p>Cyflwynodd MS adroddiad Ch2, gan nodi'r eitemau canlynol er sylw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 4 hysbysiad rhybudd cynnar, mae ymchwiliadau manwl ar y gweill neu wedi'u cwblhau, a bydd yr hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu drwy'r Grŵp Adolygu Digwyddiad a Dysgu. • Bu cynnydd yn nifer yr adolygiadau, gyda'r tîm yn edrych ar ehangu ystyriaethau o ran cyflawni perfformiad. • Roedd y nifer uchel o argymhellion / camau gweithredu a gwblhawyd ar gyfer mis Medi 2022 yn ymwneud â'r gwelliannau a nodwyd ac a roddwyd ar waith ar gyfer Rheoli Digwyddiad TG Mawr. • Byddai Themâu Cyffredin o adolygiadau yn cael eu defnyddio i lywio gwaith dadansoddi a dysgu ehangach. <p>Nododd y Pwyllgor y gwaith da yn y cyfnod diwethaf wrth ymdrin â'r ôl-groniad ym mis Medi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dysgu'r Gweithlu y Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Dysgu <p>Nododd MS bwysigrwydd y themâu yn yr adroddiad o'r hyn a ddysgwyd ers y digwyddiad unigol hanesyddol o fwlio ac</p>	Trafodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi

	<p>adolygu fel;</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymddygiadau gweithlu – pwysigrwydd ein gwerthoedd a sut rydym yn gweithredu, • Arolygon staff – i barhau yn enwedig wrth i ni barhau i dyfu fel sefydliad • Mae'r canfyddiadau wedi'u rhannu â LPF a MB • Cynhaliwyd rhaglen arweinyddiaeth, gyda sesiynau pellach i symud y negeseuon yn eu blaenau er mwyn sicrhau barn gyffredin yn gyffredinol. • Bydd Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Dysgu yn ailymweld maes o law i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu symud ymlaen a'u rhoi ar waith. <p>Awgrymodd MJ, er bod y drafodaeth gychwynnol a'r hyfforddiant statudol yn gadarnhaol, efallai y gallai hyfforddiant mwy sefyllfaol, opsiynau sy'n edrych ar atebion amgen, lywio sesiynau ynghylch y gwerthoedd. MJ/MS i barhau trafodaethau all-lein ynghylch modelu rolau.</p> <p>Sicrhaodd Julie Ash (JA), Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol y pwyllgor fod yr ymateb yn gadarnhaol, a derbyniwyd nifer fawr o wirfoddolwyr a oedd yn hapus i ddod ymlaen a chymryd rhan yn y gwaith.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Drafod yr Adroddiad Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol</p>		
3.4	<p>Adroddiadau Sicrwydd</p> <p>I. Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth</p> <p>Cyflwynodd DL yr adroddiad, gan nodi'r prif bwyntiau fel a ganlyn;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwaith yn mynd yn ei flaen ar ddatblygu strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth, lle mae cydrannau wedi'u rhannu i ddeall yr hyn sy'n gyraeddadwy. • Adran 255 – gwaith i'w wneud mewn perthynas â Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd fodd bynnag roedd cais ffurfiol o'r ddeddf uniaith Saesneg wedi'i dderbyn. • Nifer yr Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data sy'n mynd yn eu blaen gyda lefel uwch o gymhlethdod, gan weithio ar ddull cadarn o sicrhau preifatrwydd drwy'r dadansoddiad • Cofnodwyd 1 digwyddiad ers y cyfarfod diwethaf a oedd yn ymwneud ag Office 365; lliniarwyd yn erbyn 	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi

hyn.

Cafwyd trafodaeth ar y penodiad a groesawyd ar gyfer arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth i'r Rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol, ynghyd â staff presennol yn rhoi rhywfaint o adnoddau ar fenthg i'r rhaglen.

II. Adroddiad Sicrwydd Gwybodeg

Rhoddodd RH ddiweddariad byr gan nodi bod pob statws yn oren a bod dyddiad ar gyfer CANISC Go Live wedi'i gytuno ers cyhoeddi'r papur.

III. Adroddiad Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth

Cyflwynodd AW yr adroddiad yn absenoldeb RP, gan nodi'r gwaith ar ddatblygu:

- offeryn awtomataidd, cynnydd yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r hyn y gellir ei gyflawni'n flynyddol, yn galluogi RP i adrodd ar statws cyfredol y pethau y gellir eu cyflawni heb broblem
- un sianel i gyfuno pob blwch post a brysbennu ymatebion yn gyflymach. Gellir gweithredu ceisiadau Adnoddau Data Cenedlaethol yn fwy cydweithredol, gyda chyfarfodydd ychwanegol ar y cyd ag Adnoddau Data Cenedlaethol i adolygu ceisiadau gwaith.
- Grŵp sicrwydd Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth – Cyflwynwyd gwaith grŵp sicrwydd gwybodeg Cymru i'w ystyried gan y grŵp Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth.
- Roedd y Portffolio Gwasanaeth ychydig yn hen oherwydd yr ymateb i covid, gwnaeth rheolwyr gwasanaeth gynnydd yn y 12 mis diwethaf ac fe'u hintegreiddiwyd yn llawn i'r catalog. Roedd y tîm yn bwriadu adnewyddu'r rhaglenni sy'n weddill yn y portffolio a'u hail-gategoreiddio fel y bo'n briodol. Byddai papur ar y gwaith hwn yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Rheoli Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Archwiliad mewnol o'r Gwasanaeth Cyfnewid – Roedd ymateb rheolwyr wedi'i ddrafftio mewn ymateb i'r Adroddiad Archwilio Mewnol drafft.
- Fframwaith sicrwydd yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio dangosfyrddau Power BI. Byddai'r fframwaith yn sicrhau bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth briodol yn y parth cyhoeddus yn unig. Roedd y broses ar gyfer cyhoeddi yn cael ei gwella gyda chynllun pilot yn cael ei gynnal o fewn y

	<p>Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Risgiau – adnoddau rheoli gwasanaeth. Roedd gwaith ar ôl i'w wneud ar hyn. Natur y risg oedd camleoli wrth adrodd yn yr IOPR <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Nodi'r adroddiadau er Sicrwydd.</p>		
3.5	<p>Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol</p> <p>Dywedodd RG wrth y Pwyllgor fod cyfarfod wedi'i gynnal gyda hi ei hun DS, IE, CD a Rebecca Cook, Cyfarwyddwr Rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol i drafod y rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol a arweiniodd at ganlyniad cadarnhaol iawn a roddodd sicrwydd i IM ynghylch y rhaglen waith.</p> <p>Amlygodd David Sheard (DSh), Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid Gwasanaeth y canlynol i'w nodi yn erbyn y Rhaglenni Digidol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd sgôr Coch i brosiect System Adrannau Achosion Brys Cymru (WEDS). Y brif broblem yw problemau system parhaus sy'n effeithio ar Uned Mân Anafiadau Castell-nedd Port Talbot. Mae'r cyflenwr yn parhau i weithio gyda SBU ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ymchwilio ac roedd hyn wedi'i uwchgyfeirio gyda'r cyflenwr ac i Dîm Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru. - Ychwanegodd DSh nad ymarferoldeb yr ap oedd y broblem, ond y ffordd y mae'r ap yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd gwaith, oherwydd y rhwymedigaethau cytundebol a chyfreithiol. Roedd ymchwiliad yn cael ei gynnal a disgwylir cynnig gan y cyflenwr cyn y gellir diweddaru'r statws Coch, Oren, Gwyrdd. • Mae'r rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol (NDR) bellach wedi'i graddio'n Oren. Mae angen i'r adnoddau i gefnogi'r llwyfan data ac offer Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau fod yn eu lle cyn y gall y llwyfan fynd yn fyw. • Graddiwyd System Wybodaeth Cymru ar gyfer Rheoli Diabetes (WISDM) yn Oren. Bu oedi cyn cyflwyno'r ffurflen Bediatrig oherwydd problemau yn yr amgylchedd prawf. Trefnwyd rhyddhau'r ffurflen ar 	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi

Cofnodion ar gyfer:

Pwyllgor Cyhoeddus Llywodraethu a Diogelwch Digidol Tachwedd 2022

	<p>gyfer y flwyddyn newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae dau brosiect ychwanegol wedi'u hychwanegu at y trosolwg. Eglurwyd y rhain fel prosiect Trawsffiniol Powys Lloegr a Rhaglen Rhwydwaith Gwybodaeth Labordy Cymru (LINC). <ul style="list-style-type: none"> - Prosiect Trawsffiniol Powys Lloegr, a ariennir gan Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol, yn ceisio gwella llif data cleifion ar draws ffiniau i gefnogi cleifion. <p>Ychwanegodd RH fod y materion ychydig yn fwy cymhleth, fodd bynnag, mae angen dull gweithredu safonol ar draws ffiniau i gydymffurfio â Safonau Rhyngwladol Cleifion o fynd â'ch cofnod lle bynnag y byddwch yn mynd.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Bydd Rhwydwaith Gwybodaeth Labordy Cymru yn symud drosodd i Iechyd a Gofal Digidol Cymru o Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, ac mae dyddiad trosglwyddo swyddogol o 1 Ionawr 2023. <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Nodi'r Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol er SICRWYDD.</p>		
3.6	<p>Cadw Data Cleifion yn Ddiogel</p> <p>Derbyniodd DL ddiweddariad ar Gadw Data Cleifion yn Ddiogel, gan nodi cyfrifoldeb tîm Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru i helpu i sicrhau bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru, GIG Cymru a rhanddeiliaid eraill yn cynnal cyfrinachedd gwybodaeth bersonol, yn monitro ac yn gwella eu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth i gadw data cleifion/personol yn ddiogel.</p> <p>Nododd RG fod hwn yn faes pwysig i'r Pwyllgor ei fonitro wrth iddo ddatblygu a nododd fanteision y system tracio ac olrhain a ddefnyddiwyd yng Nghymru yn ystod y pandemig.</p> <p>Sicrhodd RH y Pwyllgor fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gallu monitro a rheoli'r defnydd o ddata fel cyfrifoldeb ar y cyd. Mae'r timau Llywodraethu Gwybodaeth a seiber yn sicrhau bod arfer diogel yn cael ei gynnal.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: NODI'r diweddariad Cadw Data Cleifion yn Ddiogel		
3.7	Strategaeth Ymchwil ac Arloesi Nododd RH fod Strategaeth Ymchwil ac Arloesi Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi'i chymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Medi 2022 gyda chynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i weithredu'r gwaith a fydd yn cael ei fwydo'n ôl i'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Nodi Diweddariad y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 4 - MATERION I GLOI			
4.1	Unrhyw Faterion Brys Eraill Nid oedd unrhyw fater arall i'w nodi.	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.2	Eitemau ar gyfer Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd i'r Bwrdd Nodwyd yr eitemau i'w cynnwys yn Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd ar gyfer Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Tachwedd fel; <ul style="list-style-type: none">- Cwblhawyd y dadansoddiad o'r risgiau corfforaethol hirsefydlog a'r gwahaniaeth yn y sgôr risg targed i'r targed cyraeddadwy.- Adroddiad Cadw Data Cleifion yn Ddiogel fel man cychwyn ar gyfer gwaith pellach i ddod- Statws System Adrannau Achosion Brys Cymru yn symud i goch- Gwaith da tîm y Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Dysgu yn y cyfnod diwethaf wrth ymdrin â'r ôl-groniad ym mis Medi.	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.3	Dyddiad y cyfarfod nesaf Cadarnhawyd y byddai dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol yn cael ei gynnal ar Chwefror 2 2023 am 1.00pm.	Nodwyd	Dim i'w nodi